**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF-LA-321-15

Y Fonesig Rosemary Butler AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

31 Mawrth 2015

Annwyl Rosemary,

**RHEOLIADAU CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN (DARPARIAETHAU TROSIANNOL A CHANLYNIADOL) (CYMRU) 2015; GORCHYMYN CYNLLUN DIGOLLEDU A CHYLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU) (DIWYGIO) 2015; GORCHYMYN CYNLLUN PENSIWN Y DYNION TÂN (CYMRU) (CYFRANIADAU) (DIWYGIO) 2015**

Yn unol â'r canllawiau, rwy'n eich hysbysu bod adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel yr ychwanegwyd gan baragraff 3 o Atodiad 10 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (sy'n nodi'r rheol bod offerynnau statudol yn dod i rym o leiaf 21 o ddiwrnodau o'r dyddiad y cânt eu gosod) yn cael ei dorri wrth gyflwyno'r offerynnau statudol uchod. Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi'i atodi er gwybodaeth i chi. Cafodd yr offerynnau hyn eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 31 Mawrth 2015. Bydd Gorchymyn Cynllun Digolledu a Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2015 yn dod i rym ar 31 Mawrth 2015 a bydd Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) (Cymru) 2015 a Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2015 yn dod i rym ar 1 Ebrill 2015.

O dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 (Deddf 2013), mae Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 (SI 2015/622 (W. 50)) (Cynllun 2015) o 1 Ebrill 2015. Ar ôl i Gynllun 2015 gael ei gyflwyno, o dan Adran 18(1) o Ddeddf 2013, bydd pob cynllun presennol yn dod i ben; bydd hyn yn cynnwys Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (cynllun 2007) newydd a hen gynllun pensiwn y diffoddwyr tân (cynllun 1992) a oedd ar gau i ddiffoddwyr tân a ymunodd â'r gwasanaeth ar 6 Ebrill 2006 neu wedi hynny.

Nod yr offerynnau hyn yw amlinellu sut y mae aelodau'n symud o gynllun cyflog terfynol (h.y. Cynlluniau 1992 neu 2007) i Gynllun cyfartaledd gyrfa 2015. Yn arbennig, mae'r Rheoliadau yn gwarchod yr hawliau y mae'r aelodau wedi'u cronni yng nghynlluniau 1992 a 2007, gan sicrhau y bydd yr hawliau hyn yn cael eu cynrychioli a'u gweinyddu'n gywir o'r adeg y mae'r aelod yn ymuno â Chynllun 2015.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Caiff Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) (Cymru) 2015 eu gwneud o dan adrannau 1(1) a (2), 2(1), 3(1), (2), (3)(a) ac (c), (6) a (7), 18(5) a (6), paragraff 6(b) o Atodlen 2, Atodlen 3 a pharagraffau 1(2)(ii), 2(2)(ii) a 5(1) o Atodlen 7 i Ddeddf 2013 ac maent yn ymdrin â buddiannau diffoddwyr tân sy'n aelodau o Gynllun 1992 neu Gynllun 2007 ac sydd felly'n dod o dan Gynllun 2015 wedi hynny.

Caiff Gorchymyn Cynllun Digolledu a Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2015 ei wneud o dan y pwerau canlynol:

- Mae Adran 34 a 62 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ("Deddf 2004") yn rhoi'r awdurdod i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth ar gyfer cynllun pensiwn i ddiffoddwyr tân.

- Mae Adran 34 o Ddeddf 2004 hefyd yn rhoi'r awdurdod i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, greu cynllun ar gyfer talu iawndal i ddiffoddwyr tân, neu mewn perthynas â diffoddwyr tân, sydd wedi'u hanafu neu sydd wedi marw. Mae Adran 34(3) yn darparu y gall gorchymyn o dan yr adran honno ddod i rym o ddyddiad sy'n gynt na'r dyddiad pan gaiff y gorchymyn ei wneud.

Caiff Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2015 ei wneud o dan Adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu cynllun pensiwn, drwy orchymyn, ar gyfer talu pensiynau, lwfansau ac arian rhodd i weithwyr brigadau tân ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwneud cyfraniadau gweithwyr cyflogedig.

Fel y nodir uchod, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud rheoliadau yn sefydlu Cynllun Pensiwn newydd ar gyfer diffoddwyr tân, o 1 Ebrill eleni. Mae'r Cynllun hwn yn wahanol mewn dau faes pwysig i'r un sydd i'w sefydlu yn Lloegr. Fodd bynnag, nid yw'r Rheoliadau y cyfeirir atynt yn yr ohebiaeth hon, sy'n ymdrin â throsglwyddo aelodau presennol y cynllun sydd heb eu gwarchod i Gynllun newydd ar gyfer 2015, yn dibynnu o gwbl ar drefn y Cynllun newydd hwnnw. At hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin yn helaeth â thelerau Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, sy'n mynd yn ôl i'r cyfnod cyn datganoli, ac nid oes llawer o bolisïau nac arbenigedd gyfreithiol yn bodoli yn ei gylch y tu allan i Lywodraeth y DU.

Felly, mae fersiynau terfynol yr Offerynnau a wnaed yn Lloegr wedi cael eu dyblygu, a'r unig ddiwygiadau a wnaed yng Nghymru oedd darparu testun Cymraeg, i adlewyrchu fformat OS Cymru ac i ddarparu ar gyfer proses ddrafftio sy'n niwtral o ran cenedl. Mae hyn wedi arwain at oedi mawr wrth gyflwyno'r rheoliadau gan nad oedd y rheoliadau Saesneg terfynol ar gael i Lywodraeth Cymru tan 6 Mawrth 2015. Er mwyn i'r rhain ddod i rym erbyn 1 Ebrill 2015 mae angen i ni dorri'r rheol 21 diwrnod. Pe bai'r Gorchmynion yn dod i rym ar ddyddiad hwyrach na 1 Ebrill 2015, o dan Adran 18(1) o Ddeddf 2013 byddai hyn yn golygu bod holl aelodau'r cynllun yn peidio â chronni buddiannau pensiwn yn yr hen Gynlluniau. Byddai hyn yn golygu bod angen i aelodau gael eu cofrestru'n awtomatig i'r Cynllun Pensiwn newydd erbyn y diwrnod canlynol - gan gynnwys y rheini sydd â hawliau wedi'u hamddiffyn er mwyn aros yn eu Cynllun presennol.

Bydd pob un o'r tri offeryn yn dilyn yr weithdrefn penderfyniad negyddol, ac mae'r cyfan wedi bod yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae Memorandwm Esboniadol hefyd wedi cael ei baratoi, sy'n cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi'i osod, ynghyd â'r Offerynnau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at David Melding AC, Cadeirydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac at Chris Warner, Pennaeth y Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**